DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, **Practis Deintyddol Llangyfelach Road**

29 Medi 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

Digidol ISBN 978-1-4734-5216-9
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2
2. Cyd-destun .......... 3
3. Crynodeb .......... 4
4. Canfyddiadau .......... 5

    Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

    Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 8

5. Y Camau Nesaf .......... 17

    Atodiad A .......... 18

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Llangyfelach Road,956 Llangyfelach Road, Tirdeunaw, Abertawe, SA5 7HR ar 29 Medi 2015.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Llangyfelach Road yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y  Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd o arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol.  Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â'r safonau a'r canllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 5 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Llangyfelach Road yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Tirdeunaw, Abertawe. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Practis Deintyddol Llangyfelach Road yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol.

Mae'r tîm o staff yn cynnwys pedwar deintydd (gan gynnwys perchnogion y practis), tair nyrs a dau dderbynnydd.

## 3. Crynodeb

Dangosodd adborth gan gleifion fod Practis Deintyddol Llangyfelach Road yn trin cleifion ag urddas a pharch. Gwnaeth pob claf a oedd wedi cwblhau a dychwelyd yr holiaduron sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'u profiad yn y practis. Gwnaethom nodi maes i'w wella ynglŷn â'r wybodaeth a oedd ar gael i'r gleifion sy'n gallu derbyn triniaeth ddeintyddol breifat. Rydym wedi gofyn yn ffurfiol i'r practis roi sylw i'r mater hwn.

Ar y cyfan, roedd gan y practis drefniadau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi maes i'w wella ynglŷn â rhai o'r safonau sy'n gysylltiedig â gofal diogel ac effeithiol.

Nid oedd tystysgrif archwilio addas ar gael ar gyfer un o'r peiriannau awtoclaf, a gwnaethom ofyn i berchnogion y practis am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith ynglŷn â'r mater hwn. Cyflwynodd perchnogion y practis gynllun gwella ysgrifenedig i AGIC, a oedd yn cadarnhau bod camau addas wedi cael eu cymryd er mwyn rhoi sylw i'r maes a oedd angen ei wella.

Gwnaethom hefyd nodi maes i'w wella ynglŷn â'r cyfleusterau clinigol a'r system ar gyfer gwirio'r cyfarpar brys. Gwnaethom edrych ar hapsampl o gofnodion cleifion, a gweld nad oedd y rhain yn bodloni'r canllawiau ar safonau clinigol. Rydym wedi gofyn yn ffurfiol i berchnogion y practis roi sylw i'r mater hwn.

Perchnogion y practis a oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r practis. Dywedwyd wrthym fod llawer o'r staff wedi gweithio yn y practis ers cryn amser. Dywedodd staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod ganddynt fynediad at hyfforddiant. Rydym wedi nodi rhai meysydd i'w gwella ynglŷn ag arfarniadau staff ac argaeledd y dogfennau sy'n ofynnol dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Rydym wedi gofyn yn ffurfiol i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis roi sylw i'r mater hwn.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Dangosodd adborth gan gleifion fod Practis Deintyddol Llangyfelach Road yn trin cleifion ag urddas a pharch. Gwnaeth pob claf a oedd wedi cwblhau a dychwelyd yr holiaduron sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'u profiad yn y practis. Gwnaethom nodi bod angen gwelliant ynglŷn â'r wybodaeth a oedd ar gael i'r gleifion sy'n gallu derbyn triniaeth ddeintyddol breifat. Rydym wedi gofyn yn ffurfiol i'r practis roi sylw i'r mater hwn.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Dychwelwyd cyfanswm o chwe holiadur wedi'u cwblhau. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *'Hapus iawn gyda'r gwasanaeth a phroffesiynoldeb yr holl staff.'*
>
> *'Rydw i bob amser wedi bod yn fodlon ar y driniaeth.'*
>
> *'Mae fy neintydd presennol … yn barod iawn ei gymwynas.'*

**<u>Gofal gydag urddas</u>**

Canfuom fod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch gan dîm y practis. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd inni weld staff yn trin cleifion mewn ffordd garedig, ac am i'r cleifion a wnaed sylwadau ddweud wrthym eu bod wedi derbyn croeso mawr gan staff y practis.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd derbynfa ar wahân. Yn hytrach, roedd y derbynyddion wedi'u lleoli yn yr ystafelloedd triniaeth, lle roeddent yn cyflawni eu dyletswyddau. Gwnaeth perchnogion y practis gytuno nad oedd y drefn hon yn ddelfrydol, ac y gallai fod yn heriol o ran diogelu preifatrwydd cleifion pan fyddant yn defnyddio'r ffôn ac yn ffeilio cofnodion cleifion. Yn ogystal, mae'n bosibl y gallai offer eraill (nad yw'n glinigol), megis cypyrddau ffeilio a desgiau, rwystro'r gwaith o lanhau arwynebau'r ystafelloedd triniaeth yn effeithiol. Dylai perchnogion y practis addasu'r arferion gweithio, cyn belled ag y bo modd ac o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd presennol, er mwyn rhoi sylw i'r materion a nodwyd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau nad yw trefniadau derbyn yn y practis yn amharu ar gyfrinachedd cleifion, nac ar y gwaith o lanhau'r ystafelloedd triniaeth yn effeithiol.***

Dywedwyd wrthym fod y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol y GIG yn bennaf. Roedd manylion bandiau prisio'r GIG ar gyfer triniaeth wedi'u harddangos, ynghyd â gwybodaeth ar gymhwysedd cleifion ar gyfer triniaeth am ddim. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â faint y bydd yn rhaid iddynt ei dalu am driniaeth ddeintyddol y GIG. Gan fod triniaeth breifat hefyd ar gael, mae'n rhaid i berchnogion y practis wneud trefniadau er mwyn arddangos rhestr o brisiau ar gyfer unrhyw driniaeth ddeintyddol breifat sydd ar gael. Mae hyn yn cael ei argymell gan y safonau[1] a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i berchnogion y practis wneud trefniadau addas er mwyn arddangos rhestr o brisiau ar gyfer y driniaeth ddeintyddol breifat sydd ar gael yn y practis.***

## Gofal amserol

Roedd sylwadau gan gleifion yn dangos nad oeddent wedi profi unrhyw oedi sylweddol wrth aros i gael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion pe bai eu deintydd yn rhedeg yn hwyr neu'n absennol.

Roedd rhif cyswllt mewn argyfwng wedi'i arddangos ar bwys mynedfa'r practis, er mwyn i gleifion gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau pan oedd y practis ar gau. Roedd y rhif hwn hefyd wedi'i gynnwys yn nhaflen wybodaeth y practis. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau y tu allan i oriau.

## Cadw'n iach

Roedd rhywfaint o wybodaeth hyrwyddo iechyd ar gael er mwyn helpu pobl i ofalu am eu hanghenion hylendid geneuol eu hunain. Dywedodd yr holl gleifion

[1] Mae safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n llywodraethu maes proffesiynol deintyddiaeth.

http://www.gdc-uk.org/Dentalprofessionals/Standards/Pages/home.aspx

a oedd wedi cwblhau a dychwelyd yr holiaduron eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu gofal a'u triniaeth ddeintyddol.

**Gofal unigol**

Roedd y practis yn cydnabod ei gyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer cleifion sydd ag anawsterau symudedd, a'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn, i gael mynediad i'r adeilad. Roedd ystafelloedd triniaeth ar gael ar y llawr daear pe na bai cleifion yn gallu defnyddio'r grisiau.

Gwnaethom nodi maes i’w wella ynglŷn â’r system ar gyfer casglu adborth gan gleifion ar eu profiadau a dangos y gwersi a ddysgwyd o ganlyniad. Roedd poster wedi'i arddangos yn gwahodd cleifion i wneud sylwadau ac awgrymiadau ynglŷn â’r gwasanaeth a ddarperir gan y practis. Roedd y drefn hon yn un ad hoc. Felly dylai perchnogion y practis ystyried rhoi system fwy ffurfiol ar waith er mwyn casglu a chofnodi adborth cleifion yn rheolaidd, ynghyd ac unrhyw gamau a wneir o ganlyniad i'r adborth a roddir.

Roedd gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon cleifion (cwynion) ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth. Roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn bodloni'r trefniadau cyfredol ar gyfer lleisio pryderon am ofal a thriniaeth y GIG (a adwaenir fel '*Gweithio i Wella*'). Roedd poster wedi'i arddangos, ac roedd taflenni ar gael a oedd yn amlinellu'r weithdrefn hon – fodd bynnag, roedd rhai o'r taflenni wedi dyddio. Yn ogystal, roedd y canllawiau ysgrifenedig ategol ar gyfer staff yn cyfeirio at y weithdrefn flaenorol, ac felly roedd y rhain wedi dyddio hefyd. Gwnaethom hysbysu perchnogion y practis am y mater hwn, a gwnaethant gytuno i gael gwared arnynt. Er bod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig, nid oedd yn bodloni gofynion y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Mae hyn yn orfodol lle mae deintyddion yn cynnig triniaeth ddeintyddol breifat.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i weithdrefn gwyno'r practis ar gyfer ymdrin â phryderon cleifion (cwynion) fodloni'r gofynion a amlinellir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru).Rhaid arddangos manylion y weithdrefn i sicrhau nad oes rhaid i gleifion ofyn am y wybodaeth hon.***

Roedd cofnod wedi’i gadw o’r pryderon (cwynion) a dderbyniwyd gan y practis. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn dangos bod ymdrech wedi'i gwneud i nodi

themâu cyffredin er mwyn gwella'r gwasanaeth. Felly, dylai perchnogion y practis ystyried rhoi system addas ar waith er mwyn nodi themâu, ac i ddangos gwersi a ddysgwyd a chamau gwella a wnaed o ganlyniad i'r pryderon (cwynion) a dderbyniwyd.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, roedd gan y practis drefniadau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella rhai agweddau ar y safonau sy'n gysylltiedig â gofal diogel ac effeithiol.**

**Nid oedd tystysgrif archwilio addas ar gael ar gyfer un o'r peiriannau awtoclaf, a gwnaethom ofyn i berchnogion y practis am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith ynglŷn â'r mater hwn. Cyflwynodd perchnogion y practis gynllun gwella ysgrifenedig i AGIC a oedd yn cadarnhau bod camau addas wedi cael eu cymryd er mwyn rhoi sylw i'r maes a oedd angen ei wella .**

**Gwnaethom hefyd nodi maes i'w wella ynglŷn â'r cyfleusterau clinigol a'r system ar gyfer gwirio offer brys. Gwnaethom edrych ar hapsampl o gofnodion cleifion, a gweld nad oedd y rhain yn bodloni'r canllawiau ar safonau clinigol. Rydym wedi gofyn yn ffurfiol i berchnogion y practis roi sylw i'r mater hwn.**

### Gofal diogel

Ar y cyfan, roedd trefniadau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch a lles pobl. Roedd yr adeilad i'w weld wedi ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu fewn a'r tu allan – ac roedd mesurau ar waith er mwyn rhwystro pobl heb awdurdod rhag cael mynediad i'r adeilad.

Roedd dogfennaeth gontract ar waith ar gyfer symud a chael gwared ar wastraff peryglus a gynhyrchir gan y practis. Gwelsom fod gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel pan oedd yn aros i gael ei gasglu gan y contractwr. Roedd gwastraff domestig yn cael ei gasglu o dan drefniadau gyda'r cyngor lleol, a dylai perchnogion y practis wirio a yw'r trefniadau hyn yn addas ar gyfer lleoliad busnes.

Roedd gan y practis wahanydd amalgam er mwyn tynnu'r gronynnau amalgam (mercwri) a geir mewn llenwadau o ddŵr gwastraff, a chael gwared arnynt mewn ffordd ddiogel. Fodd bynnag, roedd y broses hon yn dibynnu ar staff yn symud y poerlestri o'r ystafelloedd triniaeth a'u cludo i fan ar wahân er mwyn cael gwared ar y cynnwys. Dylai perchnogion y practis gynnal asesiad risg priodol o'r trefniadau hyn, er mwyn nodi peryglon a gweithredu pob mesur priodol ar gyfer lleihau'r risg o niwed posibl i staff.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchnogion y practis gynnal asesiad risg priodol o'r weithdrefn ar gyfer gwagio'r poerlestri yn y practis, ac mae'n rhaid iddynt roi mesurau rheoli ar waith er mwyn lleihau'r risg i staff (cyn belled ag y bo modd) o unrhyw niwed posibl sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn hon.***

Roedd cyfarpar diffodd tân wedi ei osod yn strategol o gwmpas y practis, ac roedd labeli cynnal a chadw yn dangos eu bod wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

Ar y cyfan, roedd mesurau ar waith er mwyn amddiffyn pobl rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac y gellir eu hatal. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig a ffedogau untro ar gael ac yn hawdd ei gyrraedd
- Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth, yr ystafell ddadheintio a'r tai bach
- Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offerynnau deintyddol yn effeithiol – yn ogystal â'u cludo a'u storio mewn ffordd ddiogel – yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1)

Fodd bynnag, canfuom nad oedd gan un o'r peiriannau awtoclaf dystysgrif archwilio gyfredol. Gwnaethom hysbysu perchnogion y practis am ein canfyddiadau, a gwnaethant gadarnhau bod contract cynnal a chadw ar waith, a bod y peiriant yn cael ei brofi bob dydd er mwyn sicrhau bod cylchred sterileiddio'r awtoclaf yn effeithiol. Fodd bynnag, gan nad oedd tystysgrif archwilio addas ar gael, gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith gan y practis

ynglŷn â'r camau a oedd wedi'u cymryd er mwyn sicrhau bod yr awtoclaf yn cael ei archwilio ac i sicrhau arferion gweithio diogel, cyn ac ar ôl yr archwiliad. Er inni weld bod cofnodion wedi cael eu cynnal a oedd yn dangos bod cylchred sterileiddio'r peiriannau awtoclaf wedi cael ei dilysu'n ddyddiol, nid oedd cofnodion a oedd yn dangos bod gwiriadau eraill a amlinellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 wedi cael eu cynnal. Felly, gofynnwyd i'r practis am sicrwydd ar unwaith yn hyn o beth.

***Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith***

***Rhaid i berchnogion y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod y cyfarpar awtoclaf a nodwyd yn cael archwiliad diogelwch gan berson cymwys, a bod y dystysgrif archwilio ar gael i'w harchwilio gan AGIC. Rhaid cymryd camau priodol yn ôl yr angen i sicrhau arferion gweithio diogel, cyn ac ar ôl yr archwiliad.***

***Rhaid i berchnogion y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod cofnodion ysgrifenedig yn cael eu cynnal ynglŷn â phrofi'r awtoclaf. Mae'r profion sydd i'w cynnal a'r cofnodion sydd i'w cynnal yn cael eu hamlinellu ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).***

Gwnaeth perchnogion y practis gyflwyno cynllun gwella ysgrifenedig ar 4 Hydref 2015 a oedd yn cadarnhau bod camau addas wedi cael eu cymryd. Ceir manylion ynglŷn â'r mater hwn yn Atodiad A.

Gwnaethom edrych ar bob ystafell driniaeth yn y practis. Roedd y rhain yn lân ac ar y cyfan yn daclus. Fodd bynnag, gwnaeth perchnogion y practis gytuno y byddai'r mannau hyn yn elwa ar gael eu huwchraddio er mwyn hwyluso'r gwaith o'u glanhau'n drwyadl ac yn effeithiol. Gwelsom fod angen selio'r uniad rhwng y waliau a'r llawr yn effeithiol, er mwyn rhwystro dŵr ag atal ysbwriel rhag cronni.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchnogion y practis sicrhau bod sêl effeithiol rhwng y waliau a'r llawr er mwyn rhwystro dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni yn y cilfannau rhwng y waliau a'r lloriau yn yr ystafelloedd triniaeth.***

Roedd eitemau nad ydynt yn offer clinigol megis cypyrddau ffeilio a desgiau yn yr ystafelloedd triniaeth a'r ystafell ddadheintio, a gallai'r rhain achosi problemau ynglŷn â glanhau'r mannau hyn yn effeithiol. Rydym wedi gofyn yn ffurfiol i berchnogion y practis roi sylw i'r mater hwn ynglŷn â'r ystafelloedd triniaeth. Yn yr un modd, dylid rhoi sylw i'r trefniadau sydd yn yr ystafell ddadheintio.

Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn y feddyginiaeth a'r driniaeth gywir pe bai argyfwng.  Gwelsom fod

cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael ac yn hawdd eu cyrraedd. Er inni glywed disgrifiad o'r system ar gyfer nodi a gwaredu ar gyffuriau mae eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio, nid oedd unrhyw gofnodion i ddangos bod cyfarpar brys yn cael ei wirio'n rheolaidd, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'w ddefnyddio mewn argyfwng. Gwelsom hefyd fod dyddiad dod i ben rhai nodwyddau a chwistrellau wedi mynd heibio. Gwnaethom hysbysu perchnogion y practis am y mater hwn er mwyn iddynt gael gwared ar y rhain. Yng ngoleuni'n canfyddiadau ni, rydym wedi argymell bod perchnogion y practis yn ailystyried y systemau gwirio presennol, er mwyn iddynt gydymffurfio â'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU).[2]

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn gallu dangos bod gwiriadau wedi cael eu cynnal ar y cyfarpar brys yn y practis, er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'w ddefnyddio. Dylai'r trefniadau ystyried y canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU).***

Roedd gan staff fynediad at gyfres o siartiau llif a oedd yn disgrifio'r camau y dylid eu cymryd pe bai argyfwng claf. Roedd y rhain wedi'u storio mewn bagiau plastig clir, ynghyd â'r cyffuriau sydd i'w defnyddio, er mwyn hwyluso mynediad haws mewn argyfwng.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n gallu disgrifio eu swyddogaethau penodol pe bai argyfwng claf. Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi mynychu hyfforddiant o'r fath o fewn y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dau aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant o fewn y cyfnod hwn, ac o'r herwydd roedd y dystysgrif hyfforddiant wedi dod i ben. Gwnaethom argymell i berchnogion y practis fod aelodau o staff yn ceisio cyngor gan y darparwr hyfforddiant ynglŷn ag unrhyw gamau ychwanegol sydd eu hangen yn hyn o beth, cyn iddynt fynychu sesiynau diweddaru hyfforddiant. Cytunodd perchnogion y practis roi sylw i'r mater hwn.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu mewn perygl. Roedd y cofnodion hyfforddi a welsom yn dangos bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ynglŷn â materion diogelu. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu

---

[2]Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithrediad.

bod yn gyfforddus ynglŷn â chodi unrhyw bryderon sydd ganddynt yn ymwneud â'r gwaith gydag uwch-staff y practis.

Daethom i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydrau-X) yn ddiogel. Mae hyn oherwydd bod y ddogfennaeth a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio offer pelydr-X mewn modd diogel ar gael yn ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd y practis. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y wybodaeth yn y ffeil yn cael ei dyddio i ddangos bod y trefniadau'n cael eu hadolygu. Roedd y tystysgrifau hyfforddi'n dangos bod y staff wedi diweddaru eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, ac yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Er nad oedd y dystysgrif ar gyfer un aelod o staff ar gael ar ddiwrnod ein harolygiad, anfonwyd hon at AGIC ymhen 24 awr i'r arolygiad. Mae gan y practis ystafell neilltuedig ar gyfer datblygu sganiau pelydr-X. Cytunodd perchnogion y practis fod angen uwchraddio'r ystafell hon.

**Gofal effeithiol**

Cwblhaodd y practis archwiliad o weithdrefnau dadheintio ym mis Mawrth 2015. Mae hyn yn galluogi timau deintyddol i asesu eu harfer yn unol â'r polisi a'r canllawiau a amlinellir ynddo. Roedd y practis wedi llunio cynllun gwella er mwyn ymateb i'r archwiliad.

Fe wnaethom nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas â gofal effeithiol. Roedd hyn yn ymwneud ag arferion cadw cofnodion.

Gwnaethom edrych ar hapsampl o gofnodion naw claf, a gweld nad oedd y rhain bob amser wedi cael eu cadw'n unol â chanllawiau ar safonau clinigol. Nid oedd hanes cymdeithasol y claf (gan gynnwys ei ddefnydd o alcohol a thybaco) wedi cael ei gynnwys bob amser. Mae'n bosibl bod hyn yn golygu bod cyfleoedd i roi cyngor hyrwyddo iechyd wedi cael eu colli. Mewn rhai cofnodion, nid oedd rheswm y claf dros ddod at y deintydd, na'r symptomau a oedd i'w gweld, wedi cael eu cofnodi. Nid oedd hanesion meddygol cleifion wedi cael eu cydlofnodi gan y deintyddion bob amser, ac nid oedd canfyddiadau archwiliadau periodontol sylfaenol ac archwiliadau meinwe meddal wedi cael eu cofnodi. Yn ogystal, roedd diffyg manylion yn y cofnodion ar gyfer cydsyniad cleifion. Byddai cynnwys y wybodaeth hon yn dangos bod y driniaeth wedi cael ei chynllunio er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion. Roedd nodiadau o'r driniaeth wedi cael eu cofnodi, ac yn ôl pob golwg roedd amlder galw'n ôl yn unol â'r canllawiau clinigol.

Lle roedd sganiau pelydr-X wedi'u cynnal, nid oedd y cyfiawnhad dros y rhain wedi cael ei nodi bob amser. Yn ogystal, nid oedd canlyniadau'r sganiau hyn wedi cael eu nodi bob amser.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cadw'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.***

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod ansawdd y sganiau pelydr-X wedi cael ei nodi, ond nid oedd hyn yn cael ei wneud yn gyson gan y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis. Nid oedd system ar waith er mwyn cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd o ansawdd y sganiau pelydr-X. Dylai perchnogion y practis ystyried rhoi system addas ar waith fel rhan o'r system gyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Perchnogion y practis a oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r practis. Dywedwyd wrthym fod llawer o'r staff wedi gweithio yn y practis ers amser maith, gan roi elfen o ddilyniant i gleifion.Dywedodd staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod ganddynt fynediad at hyfforddiant. Rydym wedi nodi bod angen rhywfaint o welliant ynglŷn ag arfarniadau staff, ac argaeledd y dogfennau sy'n ofynnol dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Rydym wedi gofyn yn ffurfiol i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis roi sylw i'r mater hwn.**

Perchnogion y practis a oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r practis. Roedd amrywiaeth o bolisïau perthnasol ar waith, ond nid oedd dyddiad ar gyfer y rhan fwyaf o'r rhain. Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas ar gyfer cofnodi dyddiad polisïau, a dangos bod y rhain yn cael eu hadolygu'n barhaus.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio yn y practis ers blynyddoedd lawer, ac roedd y rhai y gwnaethom siarad â nhw'n dangos dealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd hyn yn rhoi elfen o ddilyniant ar gyfer y cleifion a oedd yn mynychu'r practis. Gwnaeth trafodaethau â staff ddangos eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddogaethau, a'u bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl, ac sy'n bodloni eu hanghenion datblygu proffesiynol parhaus. Gwelsom sampl o gofnodion hyfforddi a oedd yn cefnogi hyn. Er bod cofnodion ar gael ar gyfer arfarniadau staff yn y gorffennol, gwelsom nad oedd staff wedi cael arfarniad o'u gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y system a ddefnyddiwyd wedi nodi nodau ac amcanion ar gyfer datblygu staff. Gwnaethom drafod y mater hwn â pherchnogion y practis, a gwnaethant gytuno

y dylai staff gael arfarniad blynyddol o'u gwaith er mwyn monitro eu cynnydd a nodi eu hanghenion datblygu ar gyfer y dyfodol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod staff yn cael arfarniad blynyddol o'u gwaith.***

Dywedodd staff wrthym fod maint y tîm practis yn golygu bod cyfathrebu o fewn y tîm yn effeithiol. Er bod cyfarfodydd practis wedi cael eu cynnal, dywedwyd wrthym nad oedd y rhain yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac nad oedd cofnodion wedi cael eu cynnal. Gallai perchnogion y practis ystyried cynnal cyfarfodydd practis yn rheolaidd, er mwyn ategu systemau cyfathrebu tîm y practis sy'n bodoli eisoes.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi cael eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol. Roedd cofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi cael eu himiwneiddio rhag hepatitis B, er mwyn amddiffyn eu hiechyd eu hun ac iechyd y cleifion. Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis wedi'u cofrestru gydag AGIG i ddarparu gwasanaethau deintyddiaeth breifat, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn arddangos eu tystysgrifau cofrestriad AGIC, fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Roedd un deintydd a oedd yn gweithio yn y practis nad oedd yn dangos tystysgrif. Anfonwyd copi o'r dystysgrif at AGIC, ac er inni weld bod y deintydd wedi'i gofrestru, roedd angen diweddaru'r dystysgrif i adlewyrchu cyfeiriad y practis. Yn ôl y rheoliadau, cyfrifoldeb y deintyddion unigol yw hysbysu AGIC am unrhyw newidiadau. Cytunodd perchnogion y practis i wneud trefniadau er mwyn rhoi sylw i'r mater hwn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'u cofrestru gydag AGIG i ddarparu gwasanaethau deintyddiaeth breifat wneud trefniadau i arddangos eu tystysgrifau cofrestriad AGIC yn y practis mewn lle amlwg.***

Er bod gan y deintyddion a oedd wedi'u cofrestru i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nid oedd y rhain wedi cael eu cyhoeddi o fewn y tair blynedd diwethaf, fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Gwnaethom egluro mai cyfrifoldeb y deintyddion unigol yw gwneud hyn. Rhoddwyd sicrwydd inni gan berchnogion y practis y byddent yn gwneud trefniadau i sicrhau bod tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu diweddaru.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i ddeintyddion sy'n bwriadu darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn y practis, nad yw eu tystysgrifau gan y Gwasanaeth***
***'nedd***
***ac anfon copi***




ıidd dull AGIC o
' saith thema
gwasanaeth yn
vyntio ar yr
ɪu gwneud am
erir i gleifion.

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[3] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[4] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC

---

[3] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[4] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella nodi’n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Llangyfelach Road yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig, ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Llangyfelach Road

## Dyddiad yr Arolygiad: 29 Medi 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 5 | Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau nad yw'r trefniadau derbyn yn y practis yn amharu ar gyfrinachedd cleifion na'r gwaith o lanhau'r ystafelloedd triniaeth yn effeithiol. | Rheoliad 14(6)<br>Safonau 2.4<br>4.1 | Mae hyn yn anodd ar hyn o bryd oherwydd y rhwystrau mae trefn yr adeilad yn eu hachosi i amgylchedd y practis. Yn y dyfodol, rydym yn gobeithio creu derbynfa ganolog. Y pryd hwnnw, bydd pob desg a chwpwrdd ffeilio'n cael eu symud o'r ystafelloedd triniaeth. | SP MORGAN<br>EA WHITE | 1 FLWYDDYN |
| 6 | Rhaid i berchnogion y practis wneud trefniadau addas er mwyn arddangos | Safon 4.2 | Bydd y mater hwn yn cael ei drafod â phob deintydd, a bydd rhestr o | SPM/EAW | PYTHEFNOS |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | rhestr o brisiau ar gyfer y driniaeth ddeintyddol breifat sydd ar gael yn y practis.<br><br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 2.4.1] | | brisiau preifat yn cael ei chreu a'i harddangos yn glir. | | |
| 7 | Rhaid i weithdrefn gwyno'r practis ar gyfer ymdrin â phryderon cleifion (cwynion) fodloni'r gofynion a amlinellir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Rhaid arddangos manylion y weithdrefn fel nad oes rhaid i gleifion ofyn am y wybodaeth hon.<br><br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 5.1.5] | Rheoliad 15(2) | Mae polisi ar gyfer ymdrin â chwynion am ddeintyddiaeth breifat wedi cael ei lunio. Mae hwn bellach wedi cael ei arddangos yn glir yn y ddwy ystafell aros, ac mae'n bodloni'r gofynion a amlinellir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). | SPM/EAW | CWBLHAWYD |
| **Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 9 | Dylai perchnogion y practis gynnal asesiad risg priodol o'r weithdrefn ar gyfer gwagio'r poerlestri yn y practis, ac mae'n rhaid iddynt roi mesurau | Rheoliad 14(6)<br><br>Safonau | Bydd asesiad risg a pholisi iechyd a diogelwch yn cael eu llunio ar gyfer y weithdrefn hon. Bydd y staff yn cael eu hyfforddi. Bydd hyn yn cael | SPM/EAW | PYTHEFNOS |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | rheoli ar waith er mwyn lleihau'r risg i staff (cyn belled ag y bo modd) o unrhyw niwed posibl sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn hon. | 2.1<br>2.4 | ei ddogfennu, a'i gynnwys mewn unrhyw raglen ymsefydlu ar gyfer staff newydd, ac fe fydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd. | | |
| 9 | <u>Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith</u><br><br>Rhaid i berchnogion y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod y cyfarpar awtoclaf a nodwyd yn cael archwiliad diogelwch gan berson cymwys, a bod y dystysgrif archwilio ar gael i'w harchwilio gan AGIC. Rhaid cymryd camau priodol yn ôl yr angen i sicrhau arferion gweithio diogel, cyn ac ar ôl yr archwiliad.<br><br>Rhaid i berchnogion y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod cofnodion ysgrifenedig yn cael eu cynnal ynglŷn â phrofi'r awtoclaf. Mae'r profion sydd i'w cynnal a'r cofnodion sydd i'w cadw’n cael eu hamlinellu ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | Rheoliad 14(3)(b)<br><br>Safonau<br>2.4<br>2.9 | <u>O'r cynllun gwella dyddiedig 4 Hydref 2015</u><br><br>Roedd yr awtoclaf LCD-3F-3940 wedi cael ei brofi gan [y contractwr gwasanaethu], ond oherwydd camgymeriad gweinyddol [gan y contractwr gwasanaethu] nid oedd rhif cyfresol y peiriant hwn wedi cael ei ddiweddaru ar ei gofnodion, ac roeddent yn cyfeirio at hen beiriant y gwaredwyd arno. Mae'r cofnodion data'n dangos bod peiriant LCD-3F-3940 yn perfformio'n iawn ac yn bodloni'r gofynion dadheintio.<br><br>Rydym wedi cysylltu â'r [contractwr gwasanaethu] a gofyn iddo anfon y dystysgrif gywir, a byddwn yn ei hanfon at AGIC pan fydd wedi cyrraedd. | SPM/EAW | Cyn gynted â phosib |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | (Diwygiad 1).<br><br>[WHTM 01-05, Pennod 4] | | Fel cam rhagofal, gwnaethom roi arwydd ar y peiriant hwn ar 29 Medi 2015, sy'n nodi na fydd y peiriant hwn yn gweithio nes bod y dystysgrif gywir wedi cyrraedd/ail-brawf wedi cael ei wneud. Ni fydd y peiriant yn cael ei ddefnyddio.<br><br>Rydym hefyd wedi gofyn i'r [contractwr gwasanaethu] ddod i'r practis ac ardystio a phrofi'r ddau awtoglaf, dau beiriant pelydr-X y practis, a'r cywasgydd. Maent yn gwneud y gwaith hwn fel rhan o'r contract gwasanaethu blynyddol beth bynnag, ond rydym wedi dod â'r dyddiad ymlaen.<br><br>Byddant yn dod ar 28 Hydref 2015<br><br>Rydym wedi cysylltu â [chwmni] a phrynu llyfrau cofnodi er mwyn cofnodi profion, tystysgrifau, gwaith dilysu, a gwaith cynnal a chadw, gan gynnwys cyweiriadau.<br><br>Bydd y cofnod hwn hefyd yn | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cynnwys gwiriadau a gwaith cynnal a chadw bob dydd, a'r holl wybodaeth yn ymwneud â chylchred bywyd yr offer.<br><br>**DIWEDDARIAD**<br><br>Daeth y contractwr heddiw (28 Hyfref 2015), ond mae angen gwaith cyweirio ar autoclaf LCD-3F-3940. Mae'r contractwr wedi trefnu dod yn ôl. Mae arwydd ar awtoclaf LCD-3F-3940 o hyd sy'n nodi nad yw'n gweithio. Cafodd yr ail awtoglaf ei brofi ac mae'n llwyr weithredol – ac mae'r dystysgrif yn nodi hyn.<br><br>Byddaf yn cysylltu ag AGIC pan fydd awtoclaf LCD-3F-3940 yn cael ei ddefnyddio eto. | | |
| 10 | Dylai perchnogion y practis sicrhau bod y sêl rhwng y wal a'r llawr yn cael ei newid (neu wneud trefniadau addas eraill) er mwyn rhwystro dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni yn y | Rheoliad 14(6)<br><br>Safon 2.4 | Y cam cyntaf fydd gosod stribedi selio uPVC ar yr uniad rhwng y llawr a'r waliau. Bydd y gwaith hwn yn cynnig y sêl sydd ei hangen.<br><br>Yn y tymor hir, fel rhan o raglen | SPM/EAW | Y CAM CYNTAF UN MIS |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | cilfannau rhwng waliau a lloriau'r ystafelloedd triniaeth.<br>[WHTM 01-05, Pennod 6] | | ailwampio, bydd arwynebau llawr newydd yn cael eu hestyn i fyny'r waliau er mwyn creu sêl addas. | | YR AILWAMPIO<br>UN FLWYDDYN |
| 11 | Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn gallu dangos bod gwiriadau wedi cael eu cynnal ar y cyfarpar brys yn y practis er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'w ddefnyddio. Dylai'r trefniadau ystyried y canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU). | Safon 2.9 | Mae rhestr wirio ar gyfer profi cyfarpar brys bob wythnos bellach yn cael ei defnyddio. | SPM/EAW | CWBLHAWYD |
| 12 | Dylai'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.<br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol | Safon 3.5 | Bydd pob deintydd yn sicrhau bod cofnodion deintyddol yn cael eu cadw'n unol â Safonau a Rheoliadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Rydym wedi cael Canllawiau Arferion Da ar gyfer Archwilio Clinigol a Chadw Cofnodion gan Gyfadran Ymarfer | SPM/EAW | CWBLHAWYD |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1] | | Deintyddol Cyffredinol (DU), a byddwn yn anelu at gyrraedd y safon aur hon ar gyfer cadw cofnodion yn y practis. | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 13 | Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod staff yn cael arfarniad blynyddol o'u gwaith. | Safon 7.1 | Bydd pob aelod o staff yn cael arfarniad ac adolygiad blynyddol fel rhan o'i gynllun datblygu personol. | SPM/EAW | TRI MIS |
| 14 | Mae'n rhaid i ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'u cofrestru gydag AGIG i ddarparu gwasanaethau deintyddiaeth breifat wneud trefniadau i arddangos eu tystysgrifau cofrestriad AGIC yn y practis mewn lle amlwg. | Rheoliad 4 | Mae'r tystysgrifau bellach wedi cael eu diweddaru a'u harddangos, ac mae'r un deintydd wedi gwneud cais i roi cyfeiriad y lleoliad lle mae'n ymarfer ar hyn o bryd ar y dystysgrif. | SPM/EAW | CWBLHAWYD |
| 14 | Mae'n rhaid i ddeintyddion sy'n bwriadu darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn y practis, nad yw eu tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cyhoeddi o fewn y tair blynedd | Rheoliad 13(3)(c), Atodlen 2<br>Paragraff 2 | Bydd y tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu diweddaru, ac anfonir copi at AGIC cyn gynted ag y byddant wedi cyrraedd. | SPM/EAW | Dau fis, neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl iddynt gyrraedd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | diwethaf, wneud trefniadau i ddiweddaru'r tystysgrifau hyn ac anfon copi at AGIC. | | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **SP MORGAN / EA WHITE**

**Teitl:** **PRIF DDEINTYDDION Y PRACTIS**

**Dyddiad:** **28/10/2015**